# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Fflworeiddio (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021** |
| **DYDDIAD** | **25 Mawrth 2021** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**OS a osodwyd yn Senedd y DU, sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig**

**Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Fflworeiddio (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021**

Mae Rheoliadau 2021 yn cywiro diffygion yn y ddau Reoliad Gweithredu canlynol gan yr Undeb Ewropeaidd sy'n ymwneud â chyfyngiadau ar ddefnyddio nwyon tŷ gwydr wedi'u fflworeiddio ("Nwyon Ff"):

- Rheoliad (UE) 2019/661 ar sicrhau bod y gofrestrfa electronig yn gweithio'n ddidrafferth ar gyfer cwotâu ar gyfer rhoi hydrofflworocarbonau ar y farchnad; a
- Rheoliad (UE) 1191/2014 ar benderfynu ar y fformat a'r dulliau ar gyfer cyflwyno'r adroddiad y cyfeirir ato yn Erthygl 19 o Reoliad (UE) 517/2014 ("Rheoliad Nwyon Ff").

**Unrhyw effaith y gall yr Offeryn Statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae Rheoliadau 2021 yn cynnwys swyddogaethau gweinyddol a fydd yn trosglwyddo i'r rheoleiddiwr priodol.

Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i sefydlu a gweithredu eu systemau eu hunain ar gyfer Nwyon Ff a Sylweddau sy'n Teneuo'r Osôn (ODS) os ydynt yn dewis gwneud hynny. Yn ymarferol, fodd bynnag, mae Llywodraethau Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban yn gweithredu systemau Nwyon Ff ac ODS ar gyfer Prydain Fawr gyfan, a weinyddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

**Diben y diwygiadau**

Mae Rheoliadau 2021 yn cywiro diffygion yn Rheoliad (UE) 2019/661 a Rheoliad (UE) Rhif 1191/2014 drwy hepgor rhai cyfeiriadau a’u disodli â chyfeiriadau eraill priodol lle bo angen, a thrwy ddychwelyd pwerau a swyddogaethau anneddfwriaethol a arferir gan y Comisiwn Ewropeaidd i gyrff rheoleiddio ym mhob rhan o Brydain Fawr (rheoleiddwyr priodol).

Mae angen y cywiriadau hyn er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr UE, a nawr bod y Cyfnod Pontio wedi dod i ben.

Mae Rheoliadau 2021 a’r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yma:

https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-fluorinatedgreenhouse-gases-amendment-eu-exit-regulations-2021

**Pam rhoddwyd caniatâd**

Rhoddwyd caniatâd i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â Chymru ac ar ei rhan am resymau effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn ac nid oes gwahaniaeth mewn polisi. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd ym mis Mai.